

Croeso i'n cylchlythyr sy'n dod â'r newyddion diweddaraf i chi gan Uchelgais Gogledd Cymru a Chynllun Twf Gogledd Cymru. Os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth am ein gwaith, cysylltwch â ni ar gwyb@uchelgaisgogledd.cymru.

## CRONFA YNNI GLÂN GOGLEDD CYMRU AR AGOR!

Rydym wedi lansio cronfa gwerth £24.6 miliwn, er mwyn darparu cymorth ariannol hanfodol yn bennaf i fusnesau a sefydliadau'r sector gwirfoddol, sydd eisiau darparu prosiectau ynni glân neu ddatgarboneiddio.

Mae'r gronfa, a fydd yn rhedeg dros gyfnod o bum mlynedd i ddechrau, yn cynnwys dwy is-gronfa allweddol ar gyfer sefydliadau sydd wedi'u lleoli yng Ngogledd Cymru. Is-gronfa sector gwirfoddol dan arweiniad WCVA - wedi'i chynllunio ar gyfer elusennau, mentrau cymdeithasol, a phrosiectau dan arweiniad y gymuned; gydag UMi yn cyflawni is-gronfa sector preifat ar gyfer busnesau. Bydd trydydd gronfa wrth gefn ystyried ceisiadau gan sefydliadau eraill a modelau ariannu amgen.

Fel rhan o Gynllun Twf Gogledd Cymru, bydd y gronfa yn sicrhau buddsoddiad o £100m yn y rhanbarth, yn creu 150 o swyddi newydd, ac yn torri cyfwerth o hyd at 125,000 tunnell o garbon deuocsid.




Darganfod mwy

## CYMERADWYO PROSIECT DI-WIFR UWCH GWERTH £18.8M

Mae Gogledd Cymru am weld newid y broses o drawsnewid digidol yn cyflymu gyda chymeradwyo achos busnes llawn ar gyfer y prosiect Di-wifr Uwch. Wedi ei ariannu gan y Cynllun Twf, bydd yn creu cronfa grant cyfalaf er mwyn hyrwyddo buddsoddi mewn technolegau di-wifr yn y sectorau preifat a chyhoeddus.

Gyda chyfanswm cyllideb o £18.8 miliwn, bydd y prosiect yn hybu twf economaidd drwy annog busnesau a sefydliadau i fabwysiadu datrysiadau di-wifr arloesol.

Mae'r cynllun hwn yn rhan allweddol o Raglen Cysylltedd Digidol ehangach Uchelgais Gogledd Cymru, sy'n canolbwyntio ar ddarparu mynediad digidol fforddiadwy o ansawdd uchel ledled y rhanbarth. Mae disgwyl i'r prosiect greu rhwng 315 a 380 o swyddi newydd erbyn 2036.

Darllen Mwy

## CYHOEDDI RHESTR O BROSIECTAU POSIBL

Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi nifer o brosiectau posibl, fydd yn gallu gwneud cais yn y dyfodol am ran o gyllid Cynllun Twf sydd heb ei ddyrannu eto.

Nod y cam yma yw sbarduno twf rhanbarthol drwy gyflawni prosiectau economaidd cynaliadwy ledled y Gogledd, er mwyn creu swyddi a bydd yn cyd-fynd ag ymrwymiadau amgylcheddol.

I ddarllen mwy

## RHWYDWAITH TALENT TWRISTIAETH - YN GWNEUD CYNNYDD SYLWEDDOL

Mae Rhwydwaith Talent Twristiaeth yn brosiect Cynllun Twf Gogledd Cymru, sy'n cael ei arwain gan Grŵp Llandrillo Menai. Mae'r prosiect wedi'i sefydlu i drawsnewid yr ymagwedd at ddarparu sgiliau twristiaeth a lletygarwch yng Ngogledd Cymru.

Mae'r Cynllun Twf, wedi ymrwymo £4.34m fel rhan o'r prosiect gwerth £19m - gyda busnesau 'Lloeren' yn derbyn grant o £1m yr un o'r buddsoddiad.

## PARTNERIAETH NEWYDD

Mae Grŵp Llandrillo Menai a Snowdonia Hospitality & Leisure Ltd wedi llofnodi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd, sy'n nodi dechrau partneriaeth strategol i gryfhau'r economi lletygarwch a thwristiaeth yng Ngogledd Cymru.

Fel rhan o'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth, mae'r cytundeb yn amlinellu ymrwymiad y ddwy ochr i greu llwybrau i gyflogaeth drwy brentisiaethau, dysgu seiliedig ar waith, a mentrau ymgysylltu cymunedol.

Dywedodd Gwenllian Roberts, Uwch Gyfarwyddwr Datblygiadau Masnachol Grŵp Llandrillo Menai: "Drwy gyfuno arbenigedd gweithredol Snowdonia Hospitality & Leisure â'n profiad helaeth ni mewn addysgu, gallwn gyd-greu gweithwyr proffesiynol medrus sydd â'r sgiliau i gefnogi economi ymwelwyr sy'n ffynnu i'r dyfodol."



Darllen Mwy

## THEATR CLWYD YN HELPU I DDARPARU HYFFORDDIANT O SAFON UCHEL

Mae'r theatr yn yr Wyddgrug wedi ei henwi fel y partner 'Lloeren' diweddaraf yn y prosiect Rhwydwaith Talent Twristiaeth.

Mae wedi'i gynllunio i hybu sgiliau lletygarwch a thwristiaeth yng Ngogledd Cymru, a bydd yn darparu hyfforddiant o'r radd flaenaf, yn ogystal â rhannu gwybodaeth ar draws y rhanbarth.

Bydd Theatr Clwyd yn ymuno â dau bartner 'Lloeren' arall sydd eisoes yn rhan o'r rhwydwaith, sef Zip World a Portmeirion. Y bwriad yw penodi partner 'Lloeren' arall yn ddiweddarach y flwyddyn hon. Mae'r cyd-weithio hefyd yn cynnwys partneriaethau strategol gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Snowdonia Hospitality & Leisure Ltd.



Stori llawn yma

## CYNNYDD Y CYNLLUN TRAFNIDIAETH RHANBARTHOL

Ers i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol drafft (RTP) ar gyfer Gogledd Cymru ddod i ben ym mis Ebrill, mae llawer o waith wedi'i wneud i ystyried yr holl adborth a datblygu dogfennau terfynol. Daeth carreg filltir allweddol ym mis Gorffennaf pan gymeradwyodd Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru y cynllun terfynol a'r dogfennaeth ategol i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w hystyried a'i chymeradwyo.

Darganfyddwch fwy am y broses a'r gweithgareddau



## PROSIECT SEILWAITH YNNI LLANW WEDI DECHRAU

Mae prosiect Cydnerth sy'n werth £16 miliwn, fydd yn cefnogi ehangu cynllun ynni llanw Morlais, bellach wedi symud i'r cam adeiladu, gan nodi carreg filltir sylweddol i economi carbon isel Gogledd Cymru.

Mae gwaith bellach wedi dechrau ar y safle yng Nghaergybi i gryfhau'r cyswllt grid ar gyfer Morlais, sy'n cael ei redeg gan fenter gymdeithasol leol, Menter Môn Morlais Cyf. Gyda chymorth y Cynllun Twf a chyllid gan Lywodraethau Cymru a'r DU, bydd Cydnerth yn sicrhau dyfodol Morlais drwy gynyddu capasiti'r grid o 18MW i 240MW yn y pen draw.

Mae Jones Bros Civil Engineering UK, sydd wedi eu lleoli yng Ngogledd Cymru, wedi ennill y cytundeb ar gyfer y gwaith adeiladu a gosod ceblau Cydnerth.



Darllen Mwy

## GWAITH ADEILADU WEDI'I GWBLHAU YN HWB YMCHWIL A DATBLYGU PRIFYSGOL BANGOR

Mae gwaith datblygu'r Ganolfan Biotechnoleg Amgylcheddol + (CEB+) ar safle Henfaes Prifysgol Bangor wedi'i gwblhau. Gyda chyllid gan y Cynllun Twf, cafodd y prosiect y golau gwyrdd llynedd. Bydd yn gwbl weithredol yn ddiweddarach yn y flwyddyn yn dilyn cyflwyno'r bio-adweithydd, darn allweddol o offer ar gyfer y cyfleuster uwchraddio ddiwydiannol.

Bydd CEB+ yn arwain ymchwil i ensymau a phrosesau biolegol sy'n cynnig opsiynau carbon isel er mwyn disodli cemegau diwydiannol. Gyda labordai ac offer arbenigol, bydd y ganolfan yn dod yn ganolfan ar gyfer cydweithio rhwng gwyddonwyr a'r diwydiant.

Mae disgwyl i'r cyfleuster greu hyd at 65 o swyddi a rhoi hwb o £15 miliwn mewn Gwerth Ychwanegol Gros (GVA) net i'r economi ranbarthol.




## CYMORTH I ADEILADU GWEITHLU DIGIDOL

Mae Pecyn Cymorth Sgiliau Digidol newydd ar gyfer cyflogwyr yn ein rhanbarth wedi'i ddatblygu gan ein Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Mae'r cyhoeddiad yn ymateb i lawer o fusnesau sy'n tynnu sylw at y ffaith eu bod yn gwybod bod sgiliau digidol yn bwysig, ond nid ydynt bob amser yn siŵr ble i ddechrau. Yn aml nid ydynt yn hyderus wrth adnabod y sgiliau digidol penodol sydd eu hangen ar eu timau neu nid ydynt yn ymwybodol o'r opsiynau hyfforddi sydd ar gael.

Nod y Pecyn Cymorth yw mynd i'r afael â'r materion hyn. Fel canllaw ymarferol, hawdd ei ddefnyddio mae wedi'i gynllunio i helpu arweinwyr busnes i lywio'r byd o ddatblygu digidol sy'n aml yn gymhleth. P'un a yw busnes newydd ddechrau ei daith ddigidol neu'n edrych i fabwysiadu technolegau mwy datblygedig, mae'r pecyn cymorth yn darparu man cychwyn clir.




Darganfod Mwy

## GWAITH BRON A GORFFEN AR DDATBLYGIAD PEIRIANNEG NEWYDD

Daeth partneriaid diwydiant, academyddion ac eraill sydd wedi bod yn rhan o brosiect adeiladu cyntaf Cynllun Twf Gogledd Cymru at ei gilydd yn ddiweddar i ddathlu'r cynnydd sydd wedi ei wneud.

Mae'r adeilad peirianneg newydd - rhan o Brosiect y Ganolfan Menter, Peirianneg ac Opteg, ar gampws Plas Coch - yn ddatblygiad arloesol, a fydd yn dod yn ganolfan arbenigol ar gyfer ymgysylltu â diwydiant, ymchwil ac arloesi.

Mae'r prosiect eisoes wedi arwain at gynnydd o 30.5% mewn bioamrywiaeth ar gampysau'r Brifysgol. Mae'r gwaith adeiladu hefyd wedi mynd y tu hwnt i'w darged o ran gwerth i'r economi leol a gwerth cymdeithasol. Mae hyn yn arwydd o'r ymrwymiad i sicrhau budd hirdymor ar draws Gogledd Cymru.

Mae disgwyl i'r Ganolfan agor ar ddechrau'r flwyddyn academaidd yn mis Medi 2025.



Stori Llawn Yma

## CYHOEDDI ADRODDIAD BLYNYDDOL UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU 2024-25

Mae ein Adroddiad Blynyddol eleni yn amlygu'r cynnydd sydd wedi ei wneud wrth gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru, gwaith sy'n gysylltiedig â'n cyfrifoldebau fel Pwyllgor Cydweithredol Corfforedig rhanbarthol yn ogystal â'n rôl wrth gyflawni prosiectau rhanbarthol ehangach.

Mae'r Cynllun Twf wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn nifer o brosiectau ar draws ei phum rhaglen. Mae'r rhain yn cynnwys ein prosiect adeiladu cyntaf yn cael ei gyflawni, datblygiadau tuag at welliannau mewn cysylltedd digidol, datblygiadau seilwaith, yn ogystal â chynnydd da mewn cynlluniau ynni carbon isel pwysig.

Yr Adroddiad




## PENODI ALWEN WILLIAMS YN BRIF WEITHREDWR

Mae Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) Gogledd Cymru, sy'n cael ei adnabod bellach fel Uchelgais Gogledd Cymru, wedi cadarnhau penodiad Alwen Williams fel y Prif Weithredwr cyntaf. Mae hi wedi arwain ar y gwaith o gyflawni Cynllun Twf y rhanbarth fel Cyfarwyddwr Portffolio yn Uchelgais Gogledd Cymru ers pum mlynedd, rôl y mae hi wedi'i chyfuno'n ddiweddar â'r swydd o Brif Weithredwr dros dro.

Mae'r CBC yn sefydliad llywodraeth leol ranbarthol newydd, wedi ei greu gan Lywodraeth Cymru. Mae ganddo gyfrifoldeb statudol am lunio cynllun trafnidiaeth a chynllun datblygu strategol rhanbarthol, yn ogystal â dyletswydd i wella a hyrwyddo lles economaidd Gogledd Cymru.



Darllen Mwy

## HWB ARIANNU AR GYFER AGRI-DECHNOLEG A THECHNOLEG BWYD

Fel rhan o'r Sefydliad Rheoli Clwstwr ar gyfer Canolbarth a Gogledd Cymru, roeddem yn falch o weld 13 o fusnesau arloesol yn derbyn cyllid trwy raglen Agri-dechnoleg a Thechnoleg Bwyd Innovate UK. Mae'r gefnogaeth yn helpu cwmnïau i fynd i'r afael â heriau allweddol fel ffermio cynaliadwy, diogelwch bwyd, a phrosesu deallus.

Mae pob prosiect wedi derbyn cyllid trwy'r Llwybr Cymorth Ariannol Lleiaf, gan ganiatáu ymchwil a datblygiad ar raddfa lai a gwaith dichonoldeb i ddechrau. Nod y cynllun yw profi a datblygu syniadau newydd sydd â photensial cryf ar gyfer twf yn y dyfodol.

Rhagor o Fanylion

## EISTEDDFOD GENEDLAETHOL WRECSAM




Roedden ni'n falch o fod yn rhan o Bentref Wrecsam yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Ar ddydd Iau'r 7fed a dydd Gwener yr 8fed o Awst roedden ni ar y safle yn rhannu gwybodaeth am ein gwaith gyda phobl o bob rhan o Gymru. Roedd ganddo ni hefyd ddigon o weithgareddau i gadw'r plant yn hapus!

Ar ddydd Gwener fe wnaethon ni hefyd gynnal trafodaeth banel ar y cyd â Phrifysgol Wrecsam. Ochr yn ochr â chydweithwyr o'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, fe wnaethon ni siarad am gyfleuster peirianneg newydd y Brifysgol - rhan o Brosiect y Ganolfan Menter, Peirianneg ac Opteg, ar gampws Plas Coch - a'r cyfleoedd hyfforddi a gyrfa y bydd yn eu cynnig i bobl ifanc lleol.

## SIOE MÔN 2025

Fe wnaethon ni fwynhau ein hamser yn Sioe Môn hefyd. Roedd gan ymwelwyr ddiddordeb mewn darganfod mwy am ein prosiectau gan gynnwys ein Cronfa Ynni Glân. Fel gwesteion yn stondin Menter Môn, roedden ni yn falch iawn o fod yn rhan o'u dathliadau pen-blwydd yn 30.

## CYNNYDD YN PARHAU AR BROSIECT ANTURIAETHAU CYFRIFOL



Mae'r prosiect Anturiaethau Cyfrifol o dan arweiniad Zip World, yn parhau i symud ymlaen, gyda nifer o gerrig milltir allweddol wedi'u cyrraedd dros y misoedd diwethaf.

Un datblygiad hanfodol yw Swing Chwarel y Penrhyn, mae disgwyl iddo dderbyn caniatâd cynllunio yn hwyrach eleni. Bydd hyn yn gam ymlaen i'r prosiect, gan ddod â ni'n agosach at weld ei effaith ar swyddi a gweithgarwch economaidd yn y rhanbarth.

Ynghyd â'r datblygiadau hyn, mae Zip World yn parhau i lunio ei gynllun budd cymunedol lleol. Mae'r cynigion diweddaraf yn cynnwys cefnogaeth i entrepreneuriaid lleol, cynllun sgiliau sy'n cyd-fynd â llwybrau cyflogaeth, a rhaglen ar gyfer ysgolion lleol. Mae trafodaethau hefyd yn parhau i ddatblygu fframwaith cryfach ar gyfer darparu cefnogaeth gymunedol.

Mae'r prosiect gwerth £16.7m yn cynnwys buddsoddiad o £10.5m gan Zip World a £6.2m o Gynllun Twf Gogledd Cymru.

Am ddiweddariadau prosiect a phroses, ewch i: Ambition Gogledd Cymru | Anturiaethau Cyfrifol

Os hoffech dderbyn mwy o wybodeath am ein gwaith, cysylltwch â ni ar gwyb@uchelgaisgogledd.cymru neu ewch i uchelgaisgogledd.cymru